


# BioBlitz Chris Packham yn y DU yn dod i Ogledd Cymru ar 20fed Gorffennaf 2018

Mae'r cyflwynydd teledu a'r naturiaethwr Chris Packham yn dod i **Ogledd Cymru** fel rhan o'r arolwg annibynnol cyntaf o'i fath yn y DU i gynnwys Gwyddoniaeth y Dinesydd. Ei nod yw tynnu sylw at i ba raddau mae rhywogaethau'r wlad dan fygythiad.

Ar **20/07/2018** bydd yn dod i **Gemlyn**, **y Gogarth** a **Phensychnant**, tri allan o'r 48 safle ledled y wlad y bydd yn galw heibio iddynt fel rhan o'i ymgyrch Bioblitz yn y DU – Dydi gwarchodfeydd ddim yn ddigon!

Mae gan ymgyrch Bioblitz yn y DU – Dydi gwarchodfeydd ddim yn ddigon! Chris ddiben difrifol iawn, oherwydd bydd canlyniadau'r arolwg yn 2018 yn cael eu cofnodi er mwyn creu meincnod. Bydd hyn yn helpu i fesur y cynnydd a'r gostyngiad yn nifer y gwahanol rywogaethau ar y safleoedd hyn yn y dyfodol.

Hefyd mae'r ymgyrch yn cynnwys cyllido torfol gyda'r holl arian sy'n cael ei godi'n cael ei ddosbarthu'n ôl i brosiectau cadwraeth rheng flaen ar lawr gwlad fydd wedi cael ymweliad yn ystod yr ymgyrch, yn ogystal â'r Gymdeithas Awtistig Genedlaethol.

Ewch i www.chrispackham.co.uk i ddilyn y Bioblitz.

Ymunwch â'r Digwyddiad ar Facebook: https://www.facebook.com/events/221259578624823/

## **Cemlyn, Ynys Môn** (maes parcio Bryn Aber; SH329935; 7:00–14:00).

## **Y Gogarth, Llandudno** (Canolfan Ymwelwyr yr Haf; SH765833; 8:00–20:00).

## **Pensychnant, Conwy** (Canolfan Gadwraeth; SH751769; 9:00–20:00).




© Penny Dixie

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

YMDDIRIEDOLAETH natur WILDLIFE TRUST GOGLEDD CYMRU NORTH WALES

Chris Packham's UK BIOBLITZ 14th - 23rd July 2018 Nature reserves are not enough!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

